Afasic GeirfA

Affasia/dysffasia

Beth yw affasia/dysffasia?

Dyma'r termau hynaf a ddefnyddir ym maes namau iaith penodol. Yn wreiddiol byddai'r termau hyn wedi disgrifio'r maes yn llwyr. Bathwyd y termau'n wreiddiol o'r Groeg gan feddygon i ddisgrifio'r cyflwr o fod yn fud (a-dim a pha-siarad) neu â lleferydd gwyredig (dys-gwael) yn dilyn trawma i'r ymennydd – fel anaf i'r pen, strôc neu lid yr ymennydd. Mae lleferydd yn cynnwys iaith yn yr enghraifft hon. Defnyddir y termau hyn yn eang mewn cysylltiad ag anawsterau iaith nad ydynt yn gynhwynol ymhlith oedolion. Am bron canrif, casglwyd pob ymchwil a dealltwriaeth glinigol o namau lleferydd ac iaith o dan y termau hyn.

Yn y 1950au dechreuodd gweithwyr proffesiynol sylweddoli y gallai plant ddangos symptomau o anawsterau datblygu a oedd yn debyg i gyflyrau oedolion a ddisgrifiwyd gan y termau **affasia** a **dysffasia**, er na wyddid bod unrhyw drawma i'r ymennydd wedi digwydd. Yn wreiddiol roedd y termau'n werthfawr iawn wrth nodi'r plant y byddem ni erbyn hyn yn eu disgrifio fel plant sydd â namau lleferydd ac iaith penodol. Un broblem sy'n codi o ddefnyddio'r rhain ar gyfer plant yw'r ffaith bod bron pob plentyn yn symud o gyflwr affasig i ddysffasia wrth iddynt barhau i ddatblygu a chael help. Am y rheswm hwn defnyddiwyd y term dysffasia'n fwy cyffredinol ar gyfer plant.

Mewn ymgais arall i wneud y termau yn berthnasol i blant ychwanegwyd y term datblygiadol, gan arwain at y term **affasia datblygiadol** a **dysffasia datblygiadol**. Ceir amrywiadau eraill a ddefnyddir i gyfeirio at blant:

- affasia/dysffasia cynhwynol - fe'i defnyddir ar gyfer y rhai roedd eu hanhawster yn bresennol o adeg eu genedigaeth
- affasia/dysffasia nad yw'n gynhwynol - fe'i defnyddir ar gyfer y rhai yr effeithiwyd ar eu datblygiad iaith a lleferydd, er enghraifft, gan anaf i'r ymennydd neu lid yr ymennydd
- affasia/dysffasia derbyngar - fe'i defnyddir ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau i ddeall iaith lafar
- affasia/dysffasia mynegiannol - fe'i defnyddir ar gyfer y rhai a all ddeall iaith lafar ond sy'n cael problemau i'w defnyddio.

Yn gyffredinol, gellir defnyddio pob un o'r termau uchod yn ôl eu diffiniadau ar yr amod wrth gwrs eu bod yn disgrifio amgylchiadau'r plentyn. Nid yw'n iawn tybio eu bod yn cyfateb yn union â chyflyrau meddygol neu seicolegol na'u bod yn rhoi darlun clir o'r union broblem sydd gan y plentyn.

Defnyddiwyd y termau hyn yn llai aml yn ddiweddar, yn arbennig yn y DU ac UDA.

Cyfeiriadau

Oxford English Dictionary

Howard, C (golygydd) (1990), *Black's Medical Dictionary*, argraffiad 36, A a C Black, London

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)

Sefydliadau eraill a all helpu

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
Ffôn: 020 7378 1200

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicoleydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.